RHIFYN
EDITION
67
01.09.25

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

15.09.25 - Wythnos cyfarfodydd 'Cwrdd â'r Athrawon'
Week of 'Meet the Teachers' meetings
20.10.25 – Nosweithiau Agored
21.10.25 - *Open Evenings*
24.10.25 – Diwrnod y Cenhedloedd Unedig (calendr)
United Nations Day (calendar)
24.10.25 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term
19.12.25 - Diwrnod olaf Tymor yr Hydref
Last day of the Autumn Term

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Bydd y plant yn gorffen ar gyfer gwyliau Hanner Tymor ar ddydd Gwener, 24.10.25 ac yn dychwelyd ar 03.11.25. Diwrnod olaf Tymor yr Hydref fydd 19.12.25 am 3:30 y.p.
The children will finish for the Half Term holiday on Friday, 24.10.25 and will return on 03.11.25. The last day of the Autumn Term is on 19.12.25 at 3:30 p.m.

HMS 2025-2026
INSET 2025-2026

01.09.25	05.01.26
27.03.26	13.04.26
20.07.26	+1

LLUNIAU YSGOL
SCHOOL PHOTOGRAPHS

Bydd John ac Anna yn ymweld â ni ar 24.09.25 i dynnu lluniau unigol.
John and Anna will visit us on 24.09.25 to take individual school photographs.

CYNGHERDDAU NADOLIG
CHRISTMAS CONCERTS

Oedran *Age Group*	Dyddiad & Amser *Date and Time*
Meithrin *Nursery*	**02.12.25** **9:30 yb/*am***
Derbyn Reception	**02.12.25** **2:00 yp/*pm***
Bl. 1 a 2 *Year 1 & 2*	**05.12.25** **#1 9:30 yb/*am*** **#2 1:45 yp/*pm***
Bl. 3 a 4 *Year 3 & 4*	**09.12.25** **#1 9:30 yb/*am*** **#2 1:45 yp/*pm***
Bl. 5 a 6 *Year 5 & 6*	**12.12.25** **#1 9:30 yb/*am*** **#2 1:45 yp/*pm***



CROESO NÔL
WELCOME BACK

Gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ymlacio ac wedi mwynhau gwyliau braf. Mae tymor prysur iawn arall o'n blaenau. Hoffem groesawu Mr Matthew Robson i Ddosbarth 3 gan obeithio y bydd yn ymgartrefu'n dda. Hefyd, croeso cynnes i'r plant newydd sydd yn ymuno â ni ar draws yr ysgol.
We hope everyone has had the opportunity to relax and you've had a good summer break. We have another busy term ahead of us. We would like to welcome Mr Matthew Robson to Class 3 and hope that he settles in well. Also, a warm welcome to all the new children joining us across the school.

CYFEIRIADAU EBOST
EMAIL ADDRESSES

Os oes angen cysylltu ag athrawon y dosbarthiadau i drafod materion lefel dosbarth, gweler y cyfeiriadau ebost. Gofynnir yn garedig i chi beidio â defnyddio'r cyfeiriadau ebost hyn ar gyfer materion o frys gan nad yw'r athrawon yn edrych ar y cyfrifon ebost hyn yn ystod y dydd gan eu bod yn brysur yn addysgu'r plant. Mewn argyfwng, cysylltwch â'r Swyddfa ar 01443 237837. Galwad ffôn yw'r ffordd orau i sicrhau fod aelod o staff wedi derbyn unrhyw neges bwysig yn ystod y dydd.

Dosbarth 1	1d5@hwbcymru.net
Dosbarth 2	2d5@hwbcymru.net
Dosbarth 3	3d5@hwbcymru.net
Dosbarth 4	4d5@hwbcymru.net
Dosbarth 5	5d5@hwbcymru.net
Dosbarth 6	6d5@hwbcymru.net
Dosbarth 7	7d5@hwbcymru.net
Dosbarth 8	8d5@hwbcymru.net

Should you need to contact the class teachers for any class based matters, please see the class email addresses above. You are kindly asked not to use these email addresses in any emergency situation as the teachers do not monitor these accounts during the day since they are busy teaching the children. In any emergency, please contact the Office on 01443 237837. A phone call is the best form of contact in an emergency to ensure a member of staff has received any important message during the day.

ALERGEDDAU A BWYD
ALLERGIES AND FOOD






Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol at rai fwydydd. Mae hyn yn cynnws cnau: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'.
Hefyd, cofiwch dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.
Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to various food products. This includes nuts: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'.
Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways as children can quite easily choke on these fruits.
Thank you in advance for your cooperation.

ADDYSG GORFFOROL
PHYSICAL EDUCATION

Isod, gweler diwrnodau Addysg Gorfforol arferol y plant.
Below, please see the children's usual PE days.

Diwrnod *Day*	Dosbarth *Class*
Dydd Llun *Monday*	4 & 8
Dydd Mawrth *Tuesday*	3 & 7
Dydd Mercher *Wednesday*	2 & 6
Dydd Iau *Thursday*	1 & 5
Dydd Gwener *Friday*	

PRYDAU YSGOL
SCHOOL MEALS

Erbyn hyn, mae holl blant cymwys wedi cael cynnig pryd ysgol am ddim yn ddyddiol. Bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i holl ddisgyblion yr ysgol sydd yn llawn amser. Hoffem eich atgoffa, os bydd eich plentyn yn absennol yn ystod cofrestru'r bore, ond y bydd yn yr ysgol i ginio, bod angen e-bostio'r athrawon dosbarth cyn 9 a.m. y bore hwnnw gyda dewis eich plentyn o fwyd ar gyfer cinio. Cynigir i blant yr hyn sydd ar gael yn y neuadd fwyta os na fydd yr athrawon dosbarth yn cael gwybod.
By now, all eligible pupils have been offered daily free school meals. This offer is extended to all full time pupils across the school. We kindly remind you that should your child be absent during morning registration, but will be in school for lunch, class teachers need to be emailed before 9 a.m. on that morning with your child's choice of food for lunch. Children will be offered what is available in the dining hall should the class teachers not be informed.



FFURFLENNI PWYSIG
IMPORTANT FORMS

Dyma ddolen i chi gael mynediad at nifer o ffurflenni, pwysig perthnasol.
Here's a link for you to access a number of important, relevant forms.

PRESENOLDEB, TREFNIADAU CYRRAEDD YN HWYR A SALWCH
ATTENDANCE, LATE ARRIVAL PROCEDURES AND ILLNESS

Gofynnir yn garedig i rieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore erbyn 9:00 y.b. Os bydd plentyn yn dost neu ag apwyntiad meddygol, gofynnir i chi gysylltu â Swyddfa'r Ysgol trwy alwad ffôn i adael neges cyn 9:00 yb ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb a phob diwrnod arall o absenoldeb yn dilyn hyn os gwelwch yn dda. Diolch am beidio ag aros am neges destun gan yr ysgol. Os bydd apwyntiad meddygol gan blentyn, mae angen i Swyddfa'r Ysgol weld cerdyn / llythyr er mwyn mewnbynu hyn i system cofrestru'r ysgol, SIMS. Heb y dystiolaeth berthnasol hon, bydd unrhyw absenoldeb o'r math yn cael ei nodi fel 'absenoldeb heb ei awdurdodi yn unol â Pholisi'r Awdurdod Lleol a'r Ysgol.
Gofynnir i bob rhiant anfon taflen TREFNIADAU DIWEDD Y DYDD at athrawon eu plant bob dydd Llun os gwelwch yn dda. Os bydd eich trefniadau yn aros yr un peth am y tymor, cwblhewch un daflen a nodwch hyn arni os gwelwch yn dda.
Un unol â pholisi'r ysgol ers nifer o flynyddoedd bellach, diolch yn fawr i chi am ddod ag unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr i'r prif fynedfa i gofrestru'r plant ar yr iPad yn y Dderbynfa.

Parents are kindly asked to make every effort in ensuring their children attend school regularly and promptly by 9:00 a.m. each morning. Thank you for not waiting for a text from school. If a pupil is ill, or has a medical appointment, you are asked to contact the School Office by telephone call before 9:00 am to leave a message to inform us on the first day of absence, and each day following this until return to school, please. If a child has a medical appointment, please provide the School Office with the appointment card / letter so this can be entered into the school's SIMS registration system. If no such appropriate evidence is received, these absences will be registered as 'unauthorised' in line with Local Authority and School Policy.
All parents are kindly asked to complete and return to school an END OF DAY ARRANGEMENTS sheet on Monday mornings please. If your arrangements are likely to remain the same for the term, please state this on the form and send only one form at the beginning of the term for your convenience.
As has been school policy for a number of years, thank you for accompanying any pupils arriving late to school to the main entrance to register the children on the iPad in Reception.

CYFARFODYDD 'CWRDD Â'R ATHRAWON'
'MEET THE TEACHERS' MEETINGS

Unwaith eto, bydd cyfarfodydd byr ar ddechrau'r tymor i'n holl rieni gwrdd â'r athrawon dosbarth. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn Neuadd yr Ysgol. Gweler yr amserlen isod, os gwelwch yn dda.
Once again, we shall be holding short meetings for all our parents to meet the class teachers. These meetings will be held in the School Hall. Please see the schedule below.

Meithrin a Derbyn *Nursery and Reception*	Mrs Jones, Mrs Critchell & Mrs Burrows	15.09.25	3:45 yp/*pm* - 4:30 yp/*pm*
Blwyddyn 1 a 2 *Year 1 and 2*	Mr Robson & Mrs Morrish	16.09.25	3:45 yp/*pm* - 4:30 yp/*pm*
Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 and 4*	Mrs Flower & Miss Jones	17.09.25	3:45 yp/*pm* - 4:30 yp/*pm*
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 and 6*	Mrs Jenkins & Miss Williams	18.09.25	3:45 yp/*pm* - 4:30 yp/*pm*

NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS



Yn dilyn y cyfarfodydd torfol 'Cwrdd â'r Athrawon', cynhelir Cyfarfodydd Cynnydd Tymor yr Hydref i chi drafod ag athrawon eich plant un-i-un ar Hydref 20fed a 21ain. Cadwch y dyddiadau hyn yn rhydd os gwelwch yn dda. Apwyntiadau 10 munud fydd i drafod sut mae'ch plant yn ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd. Cewch ragor o wybodaeth yn nes at y dyddiadau hyn ynghylch y system bwcio apwyntiadau ar-lein.

Following the whole group 'Meet the Teachers' meetings, Autumn Term Progress Meetings for you to speak with your children's class teachers on a one-to-one basis will be held on ***October 20th and 21st****. Please keep these dates free. These meetings will be 10 minutes long and offer you the opportunity to discuss how your children are settling in to their new classes. Further information will follow closer to these dates regarding the online appointment booking system.*

AP MCAS

MCAS APP

Gofynnir yn garedig i bawb sicrhau eu bod wedi lawrlwytho ap BROMCOM 'My Child at School' (MCAS), os gwelwch yn dda.
(Cliciwch ar y logo isod)


We kindly ask that everyone ensures that they have downloaded the BROMCOM 'My Child at School' app (MCAS), please.
(Click on the logo below)

AP YR YSGOL

THE SCHOOL APP

Cofiwch, os nad ydych wedi lawrlwytho Ap yr Ysgol mae perygl i chi golli negeseuon pwysig. Cliciwch ar yr eiconau isod i lawrlwytho'r Ap. Cofiwch fwrw golwg yn rheolaidd ar galendr ac adran RHIENI A GOFALWYR gwefan yr ysgol yn ogystal â'ch cyfrif ebost hefyd.

Remember, if you haven't downloaded the School App you are most likely missing important messages. Click on the icons below to download the App. Remember to regularly look at the calendar and PARENTS AND CARERS section of the school website and your email accounts also.



DIOGELWCH Y SAFLE

SITE SAFETY



Hoffem atgoffa pawb i beidio â gyrru i mewn i faes parcio'r ysgol ar unrhyw adeg er diogelwch y plant, rhieni a staff sy'n cyrraedd a gadael y safle, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, gofynnir yn garedig i chi beidio â gyrru trwy a pharcio ym mae bysiau'r ysgol, os gwelwch yn dda. Diolch am rannu'r neges hon â'r teulu / gofalwyr.

We should like to remind everyone not to drive into the school car park at any time for the safety of children, parents and staff who may be arriving and leaving the site, please. By the same token, you are kindly asked not to drive through or park in the school bus bay, please. Thank you for sharing this message with family members / carers.

Cofiwch ymweld / *Remember to visit:* Calendr yr Ysgol / *School Calendar*

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL *EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES*



Bydd ein gweithgareddau allgyrsiol yn ail-ddechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 08.09.25. Bydd y clybiau chwaraeon ar gyfer plant Blwyddyn 5 a 6, gydag ymarfer Côr ar gyfer plant Blwyddyn 3 i 6, Clwb Creadigol i blant Blwyddyn 1 a 2, Clwb Posau i blant Blwyddyn 3 a 4 ac Adran Yr Urdd ar gyfer plant Blwyddyn 3 i 6 yn eu tro. Cofiwch fod yr holl fanylion hyn ar galendr yr ysgol. Cynhelir pob gweithgaredd rhwng 3:30 yp a 4:30 yp. Diolch i chi am gasglu'ch plant yn brydlon o fae bysiau'r ysgol. Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes clwb ambell i wythnos oherwydd digwyddiadau eraill.

Os bydd eich plentyn eisiau ymaelodi â rhai o'n clybiau allgyrsiol, gofynnir i chi gwblhau'r ffurflenni perthnasol ar dudalen hon gwefan yr ysgol, os gwelwch yn dda. Mae'r ffurflenni yn cau hanner dydd, Medi'r 7fed.

*Extra-curricular activities will recommence during the week beginning **08.09.25**. The Sports Clubs are for Year 5 and 6 pupils, with Choir practice for pupils in Years 3 to 6, Creative Club for Year 1 and 2 pupils, Puzzle Club for Year 3 and 4 pupils and Urdd Club for pupils in Year 3 to 6. Please remember that these details are also to be found on the school website calendar. All activities are held between 3:30 pm and 4:30 pm. We thank you for collecting your children promptly from the school bus bay. Please note there will be no clubs some weeks due to other events.*

Should your child(ren) wish to join any extra-curricular activity club, you are kindly asked to complete the relevant forms on this page of the school website, please. The forms close midday, September 7th.

Gofynnwn yn barchus i ddisgyblion ymrwymo i fynychu pob sesiwn unwaith i chi gofrestru. Os oes rheswm dilys dros beidio â mynychu, gofynnir yn garedig i rieni anfon nodyn / e-bost at yr aelod staff perthnasol, os gwelwch yn dda. (Cyfeiriadau ebost isod).
We respectfully request that, once registered, pupils commit to attend all sessions. Should there be a genuine reason for non-attendance, parents are kindly asked to send a note / email to the relevant staff member, please. (Email addresses below).

Clwb Chwaraeon *Sports Club*

Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 and 6*	**10.09**	**24.09**	**01.10**	**08.10**	**15.10**	**05.11**
	12.11	**19.11**	**26.11**	**03.12**	**10.12**	

Mrs Jenkins 7d5@hwbcymru.net & Mr Robson 3d5@hwbcymru.net

Clwb Creadigol *Creative Club*

Blwyddyn 1 *a 2* *Year 1 and 2*	**10.09**	**24.09**	**01.10**	**08.10**	**15.10**	**05.11**
	12.11	**19.11**	**26.11**	**03.12**	**10.12**	

Mrs Burrows 2d5@hwbcymru.net

Clwb Chwaraeon Yr Urdd *Urdd Games Club*

Blwyddyn 1 *a 2* *Year 1 and 2*	**Bydd Staff yr Urdd yn cyfathrebu â'r rhieni wedi i chi ymgeisio am le yn y clwb yma.** *Urdd Staff will communicate with parents following any applications made to attend this club.*

Staff Yr Urdd *Urdd Staff*

Adran yr Urdd *Urdd Club*

Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	**12.09**	**10.10**	**21.11**	
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 & 6*	**26.09**	**07.11**	**05.12**	

Miss Jones 6d5@hwbcymru.net & Mr O'Neil

Côr *Choir*

Blwyddyn 3 i 6 *Year 3 to 6*	**09.09**	**23.09**	**30.09**	**07.10**	**14.10**	**04.11**
	11.11	**18.11**	**25.11**	**02.12**	**09.12**	

Mrs Morrish 4d5@hwbcymru.net & Miss Williams 8d5@hwbcymru.net

Clwb Posau *Puzzle Club*

Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	**10.09**	**24.09**	**01.10**	**08.10**	**15.10**	**05.11**
	12.11	**19.11**	**26.11**	**03.12**	**10.12**	

Mrs Flower 5d5@hwbcymru.net

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* @YGGGLlantrisant